Cyllid & Tollau EF

# Hawlio haen cyfradd sero preswyl (RNRB)

Atodlen IHT435

## Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Gallwch hawlio haen cyfradd sero preswyl (RNRB) yn erbyn ystâd rhywun sydd wedi marw cyn belled â'ch bod yn bodloni'r amodau canlynol:

- bu farw'r ymadawedig ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017
- mae'r ystâd yn cynnwys man preswylio sy'n eiddo i'r ymadawedig (gweler nodyn 2 ar dudalen 5)
- mae'r man preswylio yn yr ystâd yn cael ei etifeddu gan ddisgynyddion uniongyrchol yr ymadawedig (gweler nodyn 3 ar dudalen 5)

Gall RNRB hefyd fod yn berthnasol os gwnaeth yr ymadawedig naill ai symud i fan preswylio llai o faint a llai o werth, gwerthu neu wedi rhoi man preswylio i ffwrdd ar 8 Gorffennaf 2015 neu ar ôl hynny (gweler nodyn 13 ar dudalen 6).

Mae rhagor o wybodaeth am hawlio RNRB i'w chael yn www.gov.uk/guidance/inheritance-tax-residence-nil-rate-band

Mae'r haen cyfradd sero preswyl (RNRB) yn swm ychwanegol y gellir ei drosglwyddo yn dilyn y farwolaeth, heb orfod talu unrhyw Dreth Etifeddiant. Caiff ei roi ar waith cyn yr haen cyfradd sero (NRB) ac unrhyw haen cyfradd sero trosglwyddadwy (TNRB) a oedd yn berthnasol pan ddigwyddodd y farwolaeth.

Gweler y nodiadau ar dudalennau 5 i 7 i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon.

**Cyfenw'r ymadawedig**

**Enwau cyntaf yr ymadawedig**

**Dyddiad y farwolaeth** DD MM BBBB

**Cyfeirnod Treth Etifeddiant**

**Os oes angen help arnoch**

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/treth-etifeddiant. Fel arall gallwch ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900. Os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU, ffoniwch +44 300 200 1900.

## Manylion yr ystâd

1 **A oes unrhyw ran o'r ystâd yn cael ei throsglwyddo i blant yr ymadawedig neu ddisgynyddion uniongyrchol eraill?** (gweler nodyn 3 ar dudalen 5)

Nac oes ☐ Os atebwch 'Nac oes', ni allwch hawlio RNRB

Oes ☐

2 **Beth yw cyfanswm gwerth yr ystâd cyn didynnu unrhyw ryddhad neu eithriad?** £

Adiwch at ei gilydd y gwerthoedd rydych wedi'u nodi yn:

- blwch 91 ar yr IHT400
- blwch 4 ar yr IHT404
- blwch 9 ar yr IHT404
- blwch 3 ar yr IHT417
- blwch 8 ar yr IHT417
- blwch G19 llai blwch H1 ar yr IHT418
- blwch G20 llai blwch H2 ar yr IHT418
- cyfanswm colofn A ym mlwch 12 ar yr IHT403

3 **Beth yw cyfanswm yr ystâd drethadwy ar ôl y farwolaeth?** (gweler ffurflen IHT400, blwch 108) £

## Manylion y man preswylio rydych yn hawlio RNRB ar ei gyfer

4 **A yw'r ystâd yn cynnwys unrhyw eiddo preswyl y bu'r ymadawedig yn berchen arno ac yn byw ynddo?** (gweler nodyn 4 ar dudalen 5)

Nac ydy ☐ Os atebwch 'Nac ydy', ewch i gwestiwn 13

Ydy ☐

5 **Beth yw cyfeiriad y man preswylio?** (gweler nodyn 5 ar dudalen 5)

Cod post

6 **Beth yw gwerth y man preswylio ar ddyddiad y farwolaeth?**
(gweler nodyn 6 ar dudalen 5)

£

7 **Pa ganran o'r man preswylio sy'n cael ei drosglwyddo i ddisgynyddion uniongyrchol yn dilyn marwolaeth yr ymadawedig?** (gweler nodyn 7 ar dudalen 6)

. %

8 **Nodwch enwau'r disgynyddion uniongyrchol hyn a'u perthynas â'r ymadawedig.** (Os oes angen mwy o le arnoch, defnyddiwch y blychau 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen 16 o'r IHT400.)

| Enw | Perthynas |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

## Gwerth trethadwy'r man preswylio

9 **A oes unrhyw ran o'r man preswylio wedi'i heithrio rhag Treth Etifeddiant, neu a oes unrhyw ran ohono sy'n gymwys am unrhyw ryddhad ar ôl y farwolaeth?** (gweler nodyn 8 ar dudalen 6)

Nac oes ☐ Os atebwch 'Nac oes', ewch i gwestiwn 13

Oes ☐

10 **A yw grosio i fyny neu ryngweithio'n berthnasol?** (gweler nodyn 9 ar dudalen 6)

Nac ydy ☐

Ydy ☐ Os atebwch 'Ydy', ewch i gwestiwn 13

11 **Beth yw gwerth trethadwy'r man preswylio at ddibenion Treth Etifeddiant?**
(gweler nodyn 10 ar dudalen 6)

£

12 **Beth yw gwerth trethadwy rhan y man preswylio sy'n cael ei throsglwyddo i'r disgynyddion uniongyrchol** (gweler nodyn 11 ar dudalen 6)

£

## Haen cyfradd sero preswyl trosglwyddadwy

**13** **A ydych am drosglwyddo unrhyw haen cyfradd sero preswyl sydd heb ei defnyddio (TRNRB) o ystâd priod neu bartner sifil a fu farw cyn yr ymadawedig?**

Nac ydw ☐ Os atebwch 'Nac ydw', ewch i gwestiwn 15

Ydw ☐ Os atebwch 'Ydw', bydd angen i chi lenwi ffurflen IHT436 'Hawlio trosglwyddiad o unrhyw haen cyfradd sero preswyl sydd heb ei defnyddio'

**14** **Faint o haen cyfradd sero preswyl trosglwyddadwy rydych yn ei hawlio?**
(Dyma'r ffigur o naill ai flwch 15 neu flwch 22 ffurflen IHT436)
(gweler nodyn 12 ar dudalen 6)

£

## Lwfans symud i gartref llai o faint

**15** **A ydych yn hawlio unrhyw lwfans ar gyfer symud i gartref llai o faint** (gweler nodyn 13 ar dudalen 6)

Nac ydw ☐ Os atebwch 'Nac ydw', ewch i gwestiwn 25

Ydw ☐

**16** **Cyfeiriad yr eiddo rydych yn hawlio lwfans symud i gartref llai o faint ar ei gyfer**

Cod post

**17** **Beth oedd y dyddiad pan waredwyd ar yr eiddo?**
DD MM BBBB (gweler nodyn 14 ar dudalen 7)

**18** **Beth oedd gwerth buddiant yr ymadawedig yn yr eiddo ar y dyddiad y cafodd ei waredu?** (gweler nodyn 15 ar dudalen 7)

£

## Asedion eraill

19 **Ar wahân i'r eiddo a nodwyd yng nghwestiwn 5, a oes unrhyw asedion eraill yn cael eu trosglwyddo i ddisgynnydd uniongyrchol ar ôl y farwolaeth?** (gweler nodyn 16 ar dudalen 7)

Nac oes ☐ Os atebwch 'Nac oes', ewch i gwestiwn 25

Oes ☐

20 **A yw grosio i fyny neu ryngweithio'n berthnasol?** (gweler nodyn 9 ar dudalen 6)

Nac ydy ☐

Ydy ☐ Os atebwch 'Ydy', ewch i gwestiwn 23

21 **Beth yw cyfanswm gwerth yr asedion eraill sy'n cael eu trosglwyddo i ddisgynyddion uniongyrchol?** (gweler nodyn 17 ar dudalen 7) £

22 **Nodwch enwau'r disgynyddion uniongyrchol hyn a'u perthynas â'r ymadawedig.**
(Os oes angen mwy o le arnoch, defnyddiwch y blychau 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen 16 o'r IHT400.)

| Enw | Perthynas |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

23 **Os gwnaed hawliad dilys am haen cyfradd sero preswyl (RNRB) ar y dyddiad gwaredu, a fyddai unrhyw haen cyfradd sero preswyl trosglwyddadwy wedi bod ar gael ar yr adeg honno?**
(gweler nodyn 18 ar dudalen 7)

Na fyddai ☐ Os atebwch 'Na fyddai', ewch i gwestiwn 25

Byddai ☐

24 **Os felly, beth fyddai swm yr haen cyfradd sero preswyl trosglwyddadwy wedi bod ar y dyddiad gwaredu?** (gweler nodyn 19 ar dudalen 7) £

## Cyfrifo'r Dreth Etifeddiant

Ewch i gyfrifiannell yr haen cyfradd sero preswyl yn www.gov.uk/guidance/inheritance-tax-residence-nil-rate-band
Bydd y blychau yn y ffurflen hon yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i ddefnyddio'r gyfrifiannell. Peidiwch â defnyddio'r gyfrifiannell os ydych wedi ateb 'Ydy' i gwestiwn 10 neu 20, byddwn yn gwneud y cyfrifiad ar eich rhan.

25 **Os ydych wedi gorffen defnyddio'r gyfrifiannell RNRB, nodwch werth yr RNRB sydd ar gael, yma** £

# Nodiadau i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon

**1. Symiau haen cyfradd sero preswyl (RNRB)**

Mae uchafswm yr RNRB sydd ar gael (ac eithrio unrhyw symiau trosglwyddadwy) ar gyfer marwolaethau yn y blynyddoedd treth canlynol fel a ganlyn:

- £100,000 yn 2017 i 2018
- £125,000 yn 2018 i 2019
- £150,000 yn 2019 i 2020
- £175,000 yn 2020 i 2028

**2. Beth yw man preswylio**

Man preswylio yw unrhyw eiddo y mae'r ymadawedig wedi byw ynddo fel ei gartref tra'r oedd yn rhan o'i ystâd. Nid yw'n rhaid iddo fod yn brif gartref iddo, ac nid oes rhaid iddo fod wedi byw ynddo neu'n berchen arno am gyfnod penodol. Nid yw eiddo roedd yr ymadawedig yn berchen arno, ond nad oedd erioed wedi byw ynddo, megis eiddo prynu i osod, yn cael ei ystyried yn fan preswylio, ac nid yw'n gymwys ar gyfer RNRB.

**3. Disgynyddion uniongyrchol**

Disgynnydd uniongyrchol yw:

- plentyn, ŵyr/wyres, gorwyr/gorwyres neu ororwyr/ororwyres yr ymadawedig

Ac at ddibenion RNRB mae 'plentyn' yn cynnwys:

- plentyn sydd, neu a oedd, yn llysblentyn i'r ymadawedig
- mae plentyn mabwysiedig yn blentyn i'r ymadawedig
- caiff plentyn maeth ei drin fel plentyn i'r ymadawedig
- os oedd yr ymadawedig yn warcheidwad wedi'i benodi neu'n warcheidwad arbennig i blentyn oedd dan 18 ar y pryd, bydd y plentyn yn cael ei drin fel plentyn i'r ymadawedig

At ddibenion RNRB nid oes rhaid i 'blentyn' fod o dan 18 oed ar ddyddiad marwolaeth yr ymadawedig, ac mae 'llysblentyn' wedi'i gyfyngu i rywun y mae ei riant, neu yr oedd ei riant, yn briod neu'n bartner sifil i'r ymadawedig.

At ddibenion RNRB, mae disgynnydd uniongyrchol yn cynnwys priod neu bartner sifil y plentyn, yr ŵyr/wyres neu'r gorwyr/gorwyres, (gan gynnwys gwraig weddw, gŵr gweddw neu bartner sifil sy'n fyw, ar yr amod nad oedd y wraig weddw, gŵr gweddw neu bartner sifil sy'n fyw wedi ailbriodi neu ffurfio partneriaeth sifil newydd cyn dyddiad marwolaeth yr ymadawedig.)

Nid yw disgynyddion uniongyrchol yn cynnwys neiaint, nithoedd, brodyr a chwiorydd na pherthnasau eraill sydd heb eu cynnwys yn y rhestr uchod.

**4. Eiddo preswyl roedd yr ymadawedig yn berchen arnynt**

Atebwch 'Ydy' os yw ystâd yr ymadawedig yn cynnwys eiddo y bu'n byw ynddo ar unrhyw adeg fel man preswylio tra'r oedd yn berchen ar yr eiddo hwnnw. Nid oes rhaid i hwn fod yn fan preswylio sy'n cael ei adael i blant yr ymadawedig neu ei ddisgynyddion pellach.

**5. Cyfeiriad yr eiddo yr hawlir RNRB ar ei gyfer**

Dylech gynnwys cyfeiriad y man preswylio rydych yn hawlio RNRB ar ei gyfer. Os oedd mwy nag un man preswylio yn yr ystâd ar ddyddiad y farwolaeth, dim ond un man preswylio y gellir ei ystyried, ond gallwch nodi pa fan preswylio rydych yn dymuno ei ystyried.

**6. Gwerth y man preswylio**

Mae angen i chi gynnwys gwerth buddiant yr ymadawedig yn y man preswylio, yma. Didynnwch unrhyw forgeisi neu ddyledion eraill a godir ar y fan preswylio o'r gwerth gros, ac ewch ati i gynnwys y gwerth net yn y blwch hwn. Dyma werth y man preswylio y gallwch ei ddefnyddio i wneud hawliad.

**7. Canran y man preswylio sy'n cael ei throsglwyddo i ddisgynyddion uniongyrchol**
Dyma ganran y man preswylio sy'n cael ei throsglwyddo i ddisgynyddion uniongyrchol. Er enghraifft, os yw man preswylio wedi'i gynnwys yn yr ystâd sy'n weddill a'i fod yn cael ei adael i 2 o blant a nai, y ganran y dylid ei nodi yma yw 66.6667%(dwy ran o dair). Defnyddiwch 4 lle degol.

**8. A oes unrhyw eithriadau neu ryddhad?**
Os bydd unrhyw ran o'r man preswylio yn cael ei throsglwyddo i fuddiolwr sydd wedi'i eithrio, megis priod neu bartner sifil yr ymadawedig, neu i elusen, neu os bydd rhyddhad, megis rhyddhad amaethyddol yn berthnasol i unrhyw ran o'r eiddo hwnnw, atebwch 'Oes'. Os yw'r man preswylio yn berthnasol i weddill yr ystâd a bod rhan o'r hyn sy'n weddill yn cael ei throsglwyddo i fuddiolwr wedi'i eithrio, atebwch 'Oes' i'r cwestiwn hwn.

**9. Grosio i fyny a rhyngweithio**
Bydd grosio i fyny yn berthnasol os oes Treth Etifeddiant i'w thalu, a:
- bod yr ewyllys yn gwneud unrhyw roddion yn 'rhydd o dreth'
- bod unrhyw ran o'r hyn sy'n weddill wedi'i eithrio (oherwydd, er enghraifft mae'n cael ei throsglwyddo i elusen neu briod neu bartner sifil yr ymadawedig) - yr hyn sy'n weddill yw beth sydd ar ôl yn yr ystâd ar ôl i chi dalu'r holl ddyledion, cymynroddion a threthi

Bydd rhyngweithio yn berthnasol os oes rhyddhad busnes neu ryddhad amaethyddol yn ddyledus, ac:
- os bydd unrhyw ran o'r ystâd wedi'i heithrio
- os bydd yr ewyllys yn nodi unrhyw roddion neu asedion penodol
- nad yw'r asedion y mae'r rhyddhad yn ddyledus arnynt yn cael eu rhannu'n benodol dan yr ewyllys

Os yw naill ai grosio i fyny neu ryngweithio'n berthnasol, bydd y broses o gyfrifo'r RNRB yn gymhleth a byddwn yn gwneud hynny ar eich rhan, ond dylech barhau i lenwi gweddill y ffurflen.

**10. Gwerth trethadwy'r man preswylio cyfan**
Dyma'r gwerth at ddibenion treth etifeddiant ar gyfer holl fuddiant yr ymadawedig yn yr eiddo.

**11. Gwerth trethadwy'r rhan o'r man preswylio sy'n cael ei throsglwyddo i ddisgynnydd uniongyrchol**
Dyma'r gwerth at ddibenion Treth Etifeddiant am ran o'r eiddo sy'n cael ei hetifeddu gan ddisgynnydd uniongyrchol. Er enghraifft, os yw'r eiddo werth £400,000 a bod hanner ohono'n cael ei drosglwyddo i'r priod sy'n fyw a hanner i blentyn, y ffigur i'w nodi yma fyddai £200,000 am y rhan sy'n cael ei throsglwyddo i'r plentyn.

**12. Haen Cyfradd Sero Preswyl Trosglwyddadwy (TRNRB) gan fwy nag un priod neu bartner sifil a fu farw cyn yr ymadawedig**
Os ydych yn hawlio TRNRB gan fwy nag un priod neu bartner sifil a fu farw cyn yr ymadawedig, mae angen i chi ychwanegu'r ffigurau o flwch 15 neu 21 o bob ffurflen IHT436 at ei gilydd, ond mae'r cyfanswm wedi'i gyfyngu i'r uchafswm RNRB ar gyfer blwyddyn y farwolaeth.

**13. Lwfans symud i gartref llai o faint**
Er mwyn hawlio lwfans symud i gartref llai o faint:
- rhaid i'r ymadawedig fod wedi cael gwared ar y cyn fan preswylio a naill ai fod wedi symud i fan preswylio llai o faint a llai o werth, neu fod wedi rhoi'r gorau i fod yn berchen ar fan preswylio, ar neu ar ôl 8 Gorffennaf 2015
- byddai'r cyn fan preswylio wedi bod yn gymwys ar gyfer RNRB petai wedi cael ei gadw tan y farwolaeth
- mae'n rhaid i o leiaf rhywfaint o'r ystâd wedi cael ei hetifeddu gan ddisgynyddion uniongyrchol yr ymadawedig

Does dim modd i'r elfen ychwanegol symud i gartref llai o faint fod yn fwy nag uchafswm yr RNRB a fyddai wedi bod ar gael, oni fyddai'r ymadawedig wedi cael gwared ar yr eiddo neu wedi symud i gartref llai o faint.

**14. Dyddiad gwaredu**
Os oes mwy nag un achos o waredu wedi bod yn gysylltiedig â'r un eiddo, er enghraifft rhodd o hanner cyfran ac yna rhodd arall o'r hanner cyfran sy'n weddill ar ddiwrnod gwahanol, dim ond un achos o waredu y gellir ei ystyried, ond fe gewch chi ddewis pa un. Nodwch ddyddiad yr achos o waredu rydych yn dymuno ei ystyried.

**15. Gwerth yr eiddo a gafodd ei waredu neu y symudwyd ohono i un llai o faint**
Nodwch werth ar y farchnad agored fuddiant yr ymadawedig yn yr eiddo a gafodd ei waredu ar y dyddiad gwaredu. Os oedd morgais ar yr eiddo pan gafodd ei werthu, didynnwch y morgais o bris y gwerthiant, ond peidiwch â didynnu costau gwerthu'r eiddo, megis ffioedd cyfreithiwr neu werthwr tai.

**16. Asedion eraill sy'n cael eu trosglwyddo i ddisgynyddion uniongyrchol**
Os nad oes asedion eraill yn cael eu trosglwyddo i ddisgynyddion uniongyrchol, ar wahân i'r eiddo a nodir yng nghwestiwn 5, ni fydd unrhyw lwfans symud i gartref llai o faint.

**17. Gwerth asedion eraill sy'n cael eu trosglwyddo i ddisgynyddion uniongyrchol**
Dyma'r gwerth ar ôl didynnu unrhyw eithriadau, rhyddhad amaethyddol neu fusnes neu rwymedigaethau sy'n cael eu hystyried at ddibenion Treth Etifeddiant yr asedion eraill.

**18. Haen cyfradd sero preswyl trosglwyddadwy**
Ticiwch 'Nac ydw' os nad ydych yn hawlio haen cyfradd sero preswyl trosglwyddadwy ar hyn o bryd, neu os cafodd yr achos o waredu ei wneud cyn 6 Ebrill 2017. Ticiwch 'Ydw' os ydych yn hawlio haen cyfradd sero preswyl trosglwyddadwy ar hyn o bryd, y digwyddodd yr achos o waredu ar ôl 5 Ebrill 2017, ac y bu farw priod neu bartner sifil yr ymadawedig cyn i'r achos o waredu ddigwydd.

**19. Gwerth haen cyfradd sero preswyl trosglwyddadwy**
Dyma swm yr haen cyfradd sero preswyl trosglwyddadwy a fyddai wedi bod ar gael i'r ymadawedig ar ddyddiad y broses waredu, fel petai dyddiad marwolaeth yr ymadawedig wedi bod ar y dyddiad hwnnw.